

Gyda phwy ddylech chi gysylltu os ydych chi am gwyno

Hillingdon Cyngor ar Bopeth:

Cyfeiriwch eich llythyr at y Prif Swyddog neu Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn y cyfeiriad isod:

Parker Cavendish, Suite 301, Stanmore Business and Innovation Centre, Howard Road, Stanmore, Middlesex, HA7 1FW.

Tîm Gwasanaethau Cleientiaid Cyngor ar Bopeth:

Ffôn: 03000 231 900

E-bost: feedback@citizensadvice.org.uk

Mae rhagor o wybodaeth am wneud cwyn am Cyngor ar Bopeth ar ein gwefan yma: <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/make-a-complaint-about-us/>

Gwasanaeth yr Ombudsmon Ariannol

Gallwch gwyno ar-lein:

www.financial-ombudsman.org.uk/contact-us/complain-online

Ffôn:

0800 023 4567 - mae galwadau i'r rhif hwn yn rhad ac am ddim; neu 0300 123 9123 - bydd angen i chi wirio os yw'r alwad am ddim neu a oes rhaid talu amdani yn dilynny ar eich pecyn ffôn symudol. Mae'r alwad am ddim os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol ac yn tâlu'n fisol am alwadau i rifau sy'n dechrau gyda 01 a 02.

Ein Rhif Cyfeirnod Cwmni (FRN) Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yw 617635

E-bost:

complaint.info@financial-ombudsman.org.uk

Awdurdod Cyngor Mewnfudo (IAA)

Mae manylion ar sut i gwyno ar gael ar eu gwefan:

www.gov.uk/iaa

Ffôn: 0345 000 0046

E-bost: info@immigrationadviceauthority.gov.uk

Cyhoeddwyd ym mis April 2026.

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol The National Association of Citizens Advice Bureaux. Rhif elusen gofrestrdig 1045991.

A oes gennych chi gwyn am Cyngor ar Bopeth?



citizens
advice

Hillingdon

Dywedwch wrthym os ydym wedi'ch siomi

Rydym am i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau Cyngor ar Bopeth fod yn hapus. Fel arall, rydym eisiau gwybod pam. Byddwn wastad yn ceisio unioni pethau, ond os na allwn wneud hynny, bydd gwybod lle aethom o'i le yn ein helpu i wneud yn well yn y dyfodol. Os gwnewch chi gŵyn, byddwn yn dal i geisio'ch cyngori. Fodd bynnag, os na allwn wneud hynny, byddwn yn ceisio dod o hyd i gynghorydd neu sefydliad arall i'ch helpu.

Gofynnwch i ni ddatrys y broblem yn anffurfiol

Os ydych chi'n anhapus â'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn gennym ni neu'r ffordd rydym wedi'ch trin, gofynnwch am gael siarad â Rheolwr. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth rydym ni wedi'i wneud o'i le ar unwaith er mwyn i ni allu ceisio unioni'r sefyllfa. Os nad yw'r Rheolwr yn gallu gwneud hynny ac rydych yn dal yn anhapus, gallwch wneud cwyn ffurfiol amdanom.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi siarad â ni cyn gwneud cwyn ffurfiol.

Gwneud cwyn ffurfiol amdanom ni

Mae sawl ffordd y gallwch chi wneud cwyn ffurfiol. Gallwch naill ai anfon llythyr at ein Prif Swyddog neu at Gadeirydd yr Ymddiriedolwr yn egluro beth ddigwyddodd, neu gallwch roi manylion eich cwyn i dîm Gwasanaethau Cleientiaid Cyngor ar Bopeth. Pan fyddant yn derbyn eich cwyn, byddant yn ei hanfon atom i ymchwilio.

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cwyn, efallai y byddwn am siarad â chi yn hytrach na dechrau'r broses gwynion. Gallai hyn fod yn gynt ac yn llai o straen. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn penderfynu ymchwilio'n ffurfiol i'ch cwyn heb siarad gyda chi.

Ymchwilir i'ch cwyn gan rywun nad yw'n rhan o'r achos, rheolwr neu Brif Swyddog fel rheol. Bydd Cadeirydd yr Ymddiriedolwr yn anfon ymateb ffurfiol atoch o fewn 8 wythnos i ni dderbyn eich cwyn fel arfer. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw'n mynd i gymryd mwy o amser.

Os ydym yn cynnal eich cwyn, byddwn yn ymddiheuro am yr hyn a wnaethom o'i le ac yn dweud beth fyddwn yn ei wneud i unioni pethau.

Adolygiad gan Cyngor ar Bopeth cenedlaethol

Os ydych chi'n anhapus â'n hymateb neu'r canlyniad i'ch cwyn, gallwch ofyn i ni adolygu'n penderfyniad. I wneud hynny, rhaid i chi gysylltu â thîm Gwasanaethau Cleientiaid Cyngor ar Bopeth o fewn 4 wythnos i dderbyn ein hymateb ffurfiol. Mae angen i chi egluro i'r tîm

Gwasanaethau Cleientiaid pam eich bod yn anhapus gyda'n hymateb ffurfiol.

Bydd tîm Gwasanaethau Cleientiaid yn adolygu'r gŵyn ar ran Prif Weithredwr cenedlaethol Cyngor ar Bopeth. Bydd yr adolygiad yn gwirio ein bod wedi ymchwilio yn drylwyr i'ch cwyn, ein bod wedi ymateb i'ch holl bryderon a bod ein hymateb yn deg a rhesymol. Nid ail ymchwiliad i'ch cwyn yw'r adolygiad.

Adolygiad gan ddyfarnwr annibynnol
Os ydych yn anhapus gydag adolygiad Cyngor ar Bopeth cenedlaethol, gallwch ofyn i ddyfarnwr annibynnol adolygu'ch cwyn.

Bydd rywun o du allan i Cyngor ar Bopeth yn penderfynu a ymdriniwyd yn deg â'ch cwyn.

Os ydych chi eisiau adolygiad dyfarnwr annibynnol, rhaid i chi gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Cleientiaid o fewn 4 wythnos i dderbyn eich adolygiad ac egluro pam eich bod yn anhapus gyda'r adolygiad.

Mae penderfyniad y dyfarnwr annibynnol yn derfynol a dyma gam olaf y broses gwyno.

Cyngor ar ddyled neu'ch cofnod credyd

Os cawsoch gyngor ar ddyled neu gardiau credyd gennym, gallwch gwyno amdanom i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Fodd bynnag, gallwch ond gwneud hyn ar ôl i ni adael i chi gael ymateb ffurfiol i'ch cwyn neu os na fyddwn yn ymateb i chi o fewn 8 wythnos i'w dderbyn. Fel arall, gallwch ofyn i'r tîm Gwasanaethau Cleientiaid adolygu'ch cwyn ar ôl i ni anfon ein hymateb ffurfiol atoch.

Cyngor ar faterion mewnfudo

Os ydym yn rhoi cyngor ar fewnfudo i chi, gallwch gwyno amdanom i'r Awdurdod Cyngor Mewnfudo (IAA). Dylech gwyno i'r IAA o fewn 12 mis i dderbyn ein cyngor. Gallwch wneud cwyn i'r IAA unrhyw bryd yn ystod y broses gwyno.

Mae'n holl fanylion cyswllt ar gefn y daflen hon.